I'W RYDDHAU AR UNWAITH / FOR IMMEDIATE RELEASE: 23rd September 2025

*Please scroll down for English*

# DATGANIAD I'R WASG: Derbyniad Senedd i lansio Maniffesto Cynghrair Awyr Agored Cymru, Medi 24 2025

Mae sefydliadau sy'n cynrychioli sector hamdden, dysgu ac antur awyr agored Cymru yn galw ar wleidyddion a llunwyr polisi i sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol barhau i fwynhau ac elwa o dirwedd, diwylliant a threftadaeth naturiol gwyrdd, glas a tanddaearol eithriadol Cymru.

Mae dros 50 o aelod-sefydliadau Cynghrair Awyr Agored Cymru (OAW), yn annog Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd i gymryd camau beiddgar, strategol i fanteisio i'r eithaf ar fannau gwyrdd a glas Cymru. Mae gan yr asedau naturiol hyn botensial aruthrol ar gyfer hamdden, addysg, iechyd a lles cymunedol. Mae'r alwad hon i weithredu wrth wraidd Maniffesto OAW 2026, a ddatblygwyd wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd sydd i ddod.

Bydd Maniffesto OAW yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Senedd mewn derbyniad a gynhelir ar 24 Medi, gan nodi cyfnod allweddol i lunwyr polisi ymgysylltu â'r weledigaeth ar gyfer Cymru fwy hygyrch ac egnïol.

Mae hamdden awyr agored yn llawer mwy na gweithgaredd hamdden – mae'n llesol ar gyfer y cyhoedd. Mae'n cyfrannu tuag at:

- Iechyd a lles: Gallai cynnydd o 10% mewn pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gynhyrchu £187.1 miliwn mewn gwerth cymdeithasol ledled sectorau iechyd.
- Addysg: Mae dysgu yn yr awyr agored yn rhoi hwb i gyrhaeddiad, hyder a gwytnwch. Er hynny, mae mynediad i fannau gwyllt yn dirywio - yn enwedig i blant.
- Twf economaidd: Mae'r sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored yn cyfrannu £1.619 biliwn bob blwyddyn, gan gefnogi dros 31,000 o swyddi.
- Stiwardiaeth amgylcheddol: Mae ymgysylltu â natur yn meithrin parch a chyfrifoldeb—hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

Er gwaethaf y manteision amlwg hyn, mae Cymru yn parhau i fod yn un o'r gwledydd mwyaf datgysylltiedig â natur yn y byd. O'i gymharu â'r Alban—lle mae hawl gan bobl badlo a nofio mewn unrhyw ddŵr mewndirol, gellir beicio neu reidio ar hyd 99% o lwybrau yn gyfreithiol a chaniateir gwersylla gwyllt—mae Cymru ar ei hôl hi:

- Dim ond 14% o'r llwybrau sy'n hygyrch yn gyfreithlon ar gyfer beicio neu farchogaeth.
- Nid yw gwersylla gwyllt yn cael ei ganiatáu'n gyfreithiol yn unrhyw le yng Nghymru - er ei fod yn rhan graidd o raglenni addysg awyr agored fel Gwobr Dug Caeredin.
- Mae mynediad at ddŵr mewndirol wedi'i gyfyngu'n ddifrifol, gan gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer padlo, nofio, a dysgu ar neu yn y dŵr.

Mae Maniffesto OAW ar gyfer 2026 yn galw ar wleidyddion a llunwyr polisi i gyflawni'r canlynol:

- Cydnabod cymryd rhan mewn hamdden awyr agored a dysgu gydol oes fel elfennau hanfodol o bolisi Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol, gan gyfrannu at greu gwaddol parhaol a chyflawni saith Nod Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Cefnogi'r maniffesto hwn drwy ymrwymo i weithio gyda'r sector i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd o dan y penawdau Yr Amgylchedd, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Iechyd a Llesiant, Yr Economi a Chymuned, Mynediad, a Hamdden Gyfrifol.

Dywedodd Cadeirydd Cynghrair Awyr Agored Cymru, Paul Donovan, "Mae tirwedd a bioamrywiaeth Cymru, a'i mwynhad trwy hamdden ac addysg awyr agored, yn elfen hanfodol bwysig o ddiwylliant Cymru, sy'n ymwneud ag iechyd a lles, economi a diogelu'r amgylchedd. Trwy'r maniffesto hwn, mae Cynghrair Awyr Agored Cymru yn tynnu sylw at werth cymdeithasol ac economaidd y sector awyr agored, ond hefyd yn taflu goleuni ar ei weledigaeth a rennir ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae disgwyliad OAW o wleidyddion a llunwyr polisi'r dyfodol yn amlwg, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda nhw i sicrhau sector awyr agored ffyniannus i Gymru."

Dywedodd Sam Rowlands (AS a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol (CPG) ar gyfer y Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru), "Mae'n wych gweld Cynghrair Awyr Agored Cymru yn cyhoeddi maniffesto cyn etholiadau nesaf y Senedd. Fel eiriolwr cryf dros y sector economaidd pwysig hwn, rwy'n gwybod y manteision y gall sector awyr agored ffyniannus eu darparu; cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol, iechyd corfforol, dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol ac ehangu cyrhaeddiad addysgol.

Byddwn yn annog ASau ac ymgeiswyr i roi ystyriaeth wirioneddol i faniffesto Cynghrair Awyr Agored Cymru ac ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â'u cynigion er budd pobl ledled Cymru."

---

***Nodiadau i olygyddion:***

*Mae 50+ o fudiadau yn rhan o'r Gynghrair Awyr Agored Cymru, a phob un yn chwarae rhan weithgar yn hybu statws y gymuned awyr agored yng Nghymru. Yn sgil hynny mae modd iddyn nhw gyrraedd, dylanwadu ar a grymuso rhwydwaith o bobl o'r un anian i gydweithio'n agosach er mwyn mynd i'r afael â phroblemau allweddol yn y gymdeithas.*

*Cynghrair Awyr Agored Cymru:*

- *Cynrychioli gwerthoedd ar y cyd y sector awyr agored a'r gymuned ehangach ac yn cynnig cysondeb ac eiriolaeth ar gyfer ac i'r sector awyr agored yng Nghymru.*
- *Darparu platfform y gallai sectorau a mudiadau allanol ymgysylltu gydag o.*

- *Hwyluso rhannu gwybodaeth a gweithredu fel fforwm ymgynghorol ar faterion a chyfleoedd yn y sector awyr agored.*
- *Cynrychioli aelodau sy'n arloesi ffyrdd newydd o gefnogi iechyd a lles ein cenedl wrth fod yn ystyriol i ddiogelu a gwella adnoddau sylfaenol ein cenedl – yr amgylchedd naturiol.*

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch: Paul Donovan, escape.routes@btopenworld.com*

*Aelodau'r Gynghrair Awyr Agored yn cefnogi'r maniffesta hwn:*

*Adventure Activities Industry Advisory Committee / Adventure UK / Association of Heads of Outdoor Education Centres Cymru / Association of Mountaineering Instructors / Beicio Cymru; Welsh Cycling / Bike Park Wales / Black Swimming Association Cymru / British Activity Providers Association / British Caving Association QMC / British Horse Society Cymru / British Mountaineering Council / British Mountain Guides / Caving Wales / Campaign for National Parks / Cardiff Metropolitan University / Cycling UK / Duke of Edinburgh Award Cymru / Glandŵr Cymru; Canal & River Trust Wales / Institute for Outdoor Learning Cymru / Mountain Training Cymru / National Coasteering Charter / National Trust Cymru / North Wales Mountain Rescue Association / Open Spaces Society / Outdoor Education Advisors' Panel Cymru / Outdoor Industries Association / Paddle Cymru / Pembrokeshire Coastal Forum / Pembrokeshire Outdoor Charter Group / Plas Menai / Plas y Brenin / Royal National Lifeboat Institution / Royal Society for the Protection of Birds Cymru / Royal Yachting Association Cymru Wales / Ramblers Cymru / Scouts Cymru / Snowdonia-Active / South Wales Outdoor Activity Providers Group / South Wales Search & Rescue Association / Swim Wales / The Outdoor Partnership / UK MTB Trail Alliance / Urdd Gobaith Cymru / Wales Adventure Tourism Organisation / Wales Council for Outdoor Learning / Water Safety Wales / Welsh Sports Association / Welsh Triathlon Cymru / Woodland Trust / Youth Hostel Association Cymru*